**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AM 10:00AM AR 24 MAI 2023 YN NHŶ HASTINGS A THRWY MS TEAMS**

**Yn bresennol:** Mrs Bev Smith (Cadeirydd); Mrs Dianne Bevan; Mr Frank Cuthbert.

**Swyddogion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (CFfDLC) a oedd yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr David Burley (Pennaeth Busnes); Mr Huw Blacker (Swyddog Arolygon); Miss Carys Vaughan (Swyddog Arolygon); Miss Caitlin Lowry (Swyddog Cymorth Tîm).

**Ymddiheuriadau:** Mr Michael Imperato

**Amser Dechrau: 9:59**
**Amser Gorffen: 12:31**

## 1. Datganiadau Buddiannau

1.1. **Datganwyd** bod Dianne Bevan wedi cael ei phenodi'n aelod annibynnol o'r Panel Cydnabyddiaeth Ariannol Annibynnol (IRP) ers y cyfarfod diwethaf.

## 2. Gwybodaeth gan y Cadeirydd

2.1. Rhoddodd y Cadeirydd wybodaeth i'r Comisiwn am y penodiadau diweddar a wnaed i'r IRP a'r Comisiwn.

- Llongyfarchodd y Cadeirydd Dianne Bevan ar ei phenodiad i'r IRP a chadarnhaodd fod Kate Watkins wedi cael ei phenodi'n aelod newydd o'r IRP hefyd.
- Cadarnhawyd aelod newydd y Comisiwn, sef Ginger Wiegand. Mae Ginger yn aros am gymeradwyaeth penodiadau cyhoeddus gan ei chyflogwr, sef y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC), ar hyn o bryd, ac mae'n bwriadu ymuno â chyfarfod nesaf y Comisiwn ym mis Mehefin.
- **Nodwyd** bod yr asesiad o effaith ariannol diwygio'r Senedd wedi cael ei gyflwyno.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2023

**3.1.** **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2023 yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar fân ddiwygiadau.

## 4. Materion yn Codi

**4.1.** **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad gan nodi unrhyw faterion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a rhoddwyd diweddariad ar gynnydd y materion canlynol:

**4.2.** **(Mater 1) –** Cafodd y Comisiwn 1 cais Rhyddid Gwybodaeth rhwng 14 Mawrth 2023 a 16 Mai 2023.

**4.3.** **(Mater 2) – Nodwyd** y bydd yr eitem hon yn cael ei thrafod o dan eitem agenda 9.

**4.4.** **(Mater 3) –** Mae gwaith gyda'r Gangen Adnoddau Dynol ar y cynnig ailstrwythuro ar gyfer Llywodraeth Cymru (LlC) yn parhau.

**4.5.** **(Mater 4) –** Bydd arddangosiad o'r porth yn cael ei drefnu ar gyfer y Comisiynwyr yng nghyfarfod mis Mehefin.

**4.6.** **(Mater 5) –** Nid yw LlC wedi gwneud cynnydd ar y canllawiau.

**4.7.** **(Mater 6) – Nodwyd** y bydd y mater hwn yn cael ei ddileu o'r papur Materion yn Codi a'i restru fel eitem agenda ar wahân ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

**4.8.** **(Mater 7) –** Mae 2il ymweliad â'r lle swyddfa arfaethedig wedi cael ei gynnal sy'n cynnwys ystafell gynadledda breifat ar gyfer y Comisiwn, 2 ystafell gyfarfod lai o faint a 2 fanc o ddesgiau sy'n ddigonol ar gyfer anghenion staffio'r Comisiwn yn y dyfodol. Mae'r Comisiwn yn aros am ymateb gan arweinydd TGCh LlC ynglŷn â'r gofynion TGCh a amlinellwyd. **Nodwyd** bod angen gwahaniad ffisegol oddi wrth gyflogeion LlC yn y safle newydd.

**4.9.** **(Mater 8) –** Mae ORS wedi datblygu'r holiadur ymchwil i'w ddefnyddio ar gyfer y prosiect ymchwil. **Nodwyd** y bydd yr holiadur yn cael ei ddosbarthu ym mis Mehefin a disgwylir y rownd gyntaf o adborth ym mis Medi / Hydref.

## 5. Y Rhaglen Bontio (i'w thrafod)

**5.1.** Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad i'r Comisiwn ar gynnydd y Rhaglen Bontio.

- **Nodwyd** bod yr IRP wedi cyfarfod ddiwethaf bythefnos yn ôl.
- Amlygodd y Comisiwn fod angen i fwrdd a Chadeirydd oruchwylio'r Rhaglen Bontio. **Nodwyd** y byddai mis Gorffennaf yn adeg gyfleus i benodi'r Cadeirydd hwn.
- Mae gwaith Cyfathrebu'r IRP wedi amlygu bod angen polisi hygyrchedd.

**5.2.** **Gweithredu:** Y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr i gytuno ar gyfres o rolau i'w cyflawni gan y Cadeirydd a ddewisir i oruchwylio'r Rhaglen Bontio.

**5.3.** **Gweithredu:** Y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu i lunio polisi hygyrchedd ar gyfer gwaith Cyfathrebu'r IRP.

**6. Y Flaenraglen Waith**

**6.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Flaenraglen Waith.

**7. Adroddiad Blynyddol Drafft ar y Gymraeg**

**7.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad drafft ar y Gymraeg dyddiedig 16 Mai 2023 gan y Prif Weithredwr.

**7.2.** **Nodwyd** nad yw'r Comisiwn wedi cael unrhyw gwynion ynglŷn â'r Gymraeg ers yr Adroddiad Blynyddol diwethaf ar y Gymraeg.

**7.3.** **Nodwyd** bod canran y staff sy'n siarad Cymraeg yn y Comisiwn wedi cynyddu 3% ers yr Adroddiad Blynyddol diwethaf ar y Gymraeg.

**8. Cynllun Gweithredol Drafft**

**8.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Cynllun Gweithredol Drafft dyddiedig 16 Mai 2023 gan y Prif Weithredwr.

**8.2.** **Cytunwyd** ar y Cynllun Gweithredol Drafft.

**9. Adroddiad Cynnydd Arolygon**

**9.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Cynnydd Arolygon dyddiedig 16 Mai 2023 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.

**9.1.1.** **Nodwyd** bod y cyfarfod cychwynnol yn Sir Benfro wedi cael ei ohirio gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol i ganiatáu ar gyfer ailgytuno ar y polisi maint y cyngor.

**9.1.2.** **Nodwyd** bod y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Polisi a Rhaglenni wedi cyfarfod â Swyddog Cofrestru Etholiadol Sir y Fflint yn ddiweddar i drafod Arolwg Cymunedol yn y dyfodol. **Nodwyd** y bydd Gwynedd yn cynnal ei Harolwg Cymunedol ei hun.

**9.2.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Gofrestr Risg Arolygon dyddiedig mis Mai 2023 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.

**9.3.** **Gweithredu:** Y Pennaeth Polisi a Rhaglenni i ddiweddaru a dosbarthu'r llinell amser ar gyfer arolygon Abertawe a Sir Benfro.

**10. Arolwg Cymunedol Bro Morgannwg**

**10.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Arolwg Cymunedol Bro Morgannwg – Opsiynau Cynigion Drafft dyddiedig 12 Mai 2023 gan y Rheolwr Arolygon.

**10.1.1.** **Nodwyd** y fframwaith statudol ar gyfer Arolygon Cymunedol o dan Adran 26, yn benodol diben Arolygon Cymunedol, sef cefnogi llywodraeth leol effeithiol ac effeithlon.

**10.2.** **Nodwyd** bod maint cymunedau ym Mro Morgannwg yn amrywio'n fawr ac adlewyrchwyd hynny wrth ystyried y polisi maint y cyngor. **Nodwyd** y bydd gwersi a ddysgwyd o bolisi maint cyngor Bro Morgannwg yn cael eu rhannu â Swyddogion Cofrestru Etholiadol cyn Arolygon Cymunedol yn y dyfodol.

**10.3.** **Nodwyd** bod cyfran sylweddol o'r cynrychiolaethau a gafwyd yn ystod Arolwg Cymunedol Bro Morgannwg wedi cael eu cyflwyno gan breswylwyr un gymuned.

**10.4.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol y Barri. Dewiswyd Opsiwn 5 gan y Comisiwn o'r cynigion drafft (cyfeiriwch at y templedi Safon Benderfynu (DMS) i gael rhagor o wybodaeth).

**10.5.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Penarth a Sili a Larnog. Dewiswyd Opsiwn 2 gan y Comisiwn o'r cynigion drafft (cyfeiriwch at y templedi DMS i gael rhagor o wybodaeth).

**10.6.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Llanilltud Fawr a Llan-faes. Dewiswyd Opsiwn 1 gan y Comisiwn o'r cynigion drafft (cyfeiriwch at y templedi DMS i gael rhagor o wybodaeth).

**10.7.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol y Bont-faen gyda Llanfleiddan, Pen-llin a Llanfair. Dewiswyd Opsiwn 5 gan y Comisiwn o'r cynigion drafft (cyfeiriwch at y templedi DMS i gael rhagor o wybodaeth).

**10.8.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Dinas Powys, Llanfihangel-y-pwll a Lecwydd a Llandochau. Dewiswyd Opsiwn 2 gan y Comisiwn o'r cynigion drafft (cyfeiriwch at y templedi DMS i gael rhagor o wybodaeth).

**10.9.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Ewenni a Saint-y-brid. Dewiswyd Opsiwn 1 gan y Comisiwn o'r cynigion drafft (cyfeiriwch at y templedi DMS i gael rhagor o wybodaeth).

**10.10.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Llancarfan a'r Rhws. Dewiswyd Opsiwn 1 gan y Comisiwn o'r cynigion drafft (cyfeiriwch at y templedi DMS i gael rhagor o wybodaeth).

**10.11.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Llan-faes a Llandŵ. Dewiswyd Opsiwn 2 gan y Comisiwn o'r cynigion drafft (cyfeiriwch at y templedi DMS i gael rhagor o wybodaeth).

**10.12.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Pendeulwyn a Llanddunwyd. Dewiswyd Opsiwn 1 gan y Comisiwn o'r cynigion drafft (cyfeiriwch at y templedi DMS i gael rhagor o wybodaeth).

**10.13.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Llanbedr-y-fro a Sain Siorys. Dewiswyd Opsiwn 1 gan y Comisiwn o'r cynigion drafft (cyfeiriwch at y templedi DMS i gael rhagor o wybodaeth).

**10.14.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Sain Nicolas a Thresimwn a Gwenfô. Dewiswyd Opsiwn 2 gan y Comisiwn o'r cynigion drafft (cyfeiriwch at y templedi DMS i gael rhagor o wybodaeth).

**10.15.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Sain Dunwyd a'r Wig. Dewiswyd Opsiwn 1 gan y Comisiwn o'r cynigion drafft (cyfeiriwch at y templedi DMS i gael rhagor o wybodaeth).

**10.16.** **Gofynnwyd** am gadarnhad nad yw ffiniau Cymunedol newydd yn croesi etholaethau Seneddol newydd.

**10.16.1.** **Gweithredu:** Swyddogion Arolygu i ystyried gwasgaru mapiau ffiniau drwy gydol adroddiadau Arolwg Cymunedol yn y dyfodol yn hytrach na'u gosod ar y diwedd.

**10.16.2.** **Gweithredu:** Swyddogion Arolygon i gadarnhau nad yw ffiniau Cymunedol newydd yn croesi etholaethau Seneddol newydd.

**11. Adroddiad ar Gyllideb 2022-23**

**11.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Monitro'r Gyllideb ar gyfer diwedd blwyddyn 2022-23, dyddiedig 24 Mai 2023 gan y Rheolwr Cyllid.

**11.2.** Nododd y Comisiwn drosglwyddo cronfeydd rhwng categorïau'r gyllideb i fynd i'r afael â gorwariant amcangyfrifedig.

**11.3.** **Nodwyd** sefyllfa'r gyllideb ar gyfer diwedd blwyddyn 2022-23 ynghyd â'r rhesymau dros y tanwariant cyffredinol, yr oedd y rhan fwyaf ohono'n ymwneud ag arolwg seneddol y Comisiwn Ffiniau i Gymru (CFfG).

**12. Cyllideb 2023-24**

**12.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i gyllideb 2023-24 dyddiedig 24 Mai 2023 gan y Rheolwr Cyllid.

**12.2.** **Nodwyd** bod colofn arall wedi cael ei hychwanegu at y gyllideb i ddangos incwm ychwanegol ar gyfer cynnal Arolygon Cymunedol ar y sail dros dro y byddai'r pum arolwg cymunedol o'r fath yn cael eu cynnal yn ystod 2023-24.

**13. Adroddiad ar Gyllideb 2023-24**

**13.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad ar Gyllideb 2023-24 dyddiedig 24 Mai 2023 gan y Rheolwr Cyllid.

**13.2.** **Nodwyd** bod tanwariant cyffredinol o £8k hyd at ddiwedd mis Ebrill 2023. Roedd gorwariant mewn dau gategori o'r gyllideb yn ymwneud â gwariant ar gyfer Arolygon Cymunedol a fydd yn cael ei adennill oddi wrth Awdurdodau Lleol yn y dyfodol. **Nodwyd** bod cost arolygon cymunedol unigol yn cael ei holrhain.

**14. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risg**

**14.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Rheoli Risg dyddiedig 24 Mai 2023 gan y Rheolwr Cyllid.

**14.2.** **Nodwyd** y sefyllfa bresennol o ran risg. Roedd y Comisiwn o'r farn y dylid ychwanegu risg newydd ynglŷn â'r flaenraglen waith arfaethedig. Cytunwyd y byddai'r Rheolwr Cyllid a'r Prif Weithredwr yn llunio'r risg newydd i'w chymeradwyo yng nghyfarfod mis Mehefin.

**14.2.1.** **Gweithredu:** Y Rheolwr Cyllid a'r Prif Weithredwr i lunio risg newydd.

**15. Cylch Gwaith a Chynllun Gwaith**

**15.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Cylch Gwaith a'r Cynllun Gwaith Blynyddol dyddiedig 24 Mai 2023 gan y Rheolwr Cyllid.

**15.2.** Cytunodd y Comisiwn ar y Cylch Gwaith a'r Cynllun Gwaith a nododd fod yr adran ynglŷn â phenodi'r Prif Weithredwr yn debygol o newid yn y dyfodol.

**16. Datganiad Llywodraethu Drafft 2022-23**

**16.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Datganiad Llywodraethu Drafft dyddiedig 24 Mai 2023 gan y Rheolwr Cyllid.

**16.2.** Nodwyd y byddai angen i'r adran ynglŷn ag arfarniadau'r Cadeirydd a'r Aelodau gael ei haileirio i ddweud y byddent yn cael eu cynnal yn ystod mis Gorffennaf 2023 gan nad oedd rhai o'r aelodau newydd wedi cwblhau blwyddyn lawn eto.

**17. Effeithiolrwydd y Bwrdd**

**17.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Holiadur Gwerthuso Effeithiolrwydd Blynyddol y Bwrdd dyddiedig 9 Mai 2023.

**17.2.** **Cytunwyd** y dylai'r broses ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd y bwrdd gael ei hadolygu a'i hychwanegu at agenda cyfarfod mis Gorffennaf.

**17.3. Gweithredu:** Cymorth Tîm i ychwanegu Holiadur Gwerthuso Bwrdd CFfDLC at agenda cyfarfod mis Gorffennaf.

**18. Calendr Digwyddiadau**

**18.1.** **Nododd** y Comisiwn y Calendr.

**19. Unrhyw Fater Arall Perthnasol**

**19.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Achos Busnes Wal Dân a **chytunwyd** arno.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 21 Mehefin 2023**